

Y Rhyfel Byd Cyntaf – Nodiadau Athro

Trafodaeth Gychwynnol:

- Beth ydyn ni eisoes yn ei wybod am y Rhyfel Byd Cyntaf?

Gall disgyblion fynd dros y syniadau y maent eisoes wedi'u dysgu yn ystod gwersi neu bethau y gallant wybod yn seiliedig ar eu gwybodaeth eu hunain, er enghraifft, am y ffosydd ac amodau byw milwyr.

Dechrau'r Rhyfel (sleid 2)

- Pryd ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf?

Cyhoeddodd Prydain ei bod yn mynd i ryfel yn erbyn yr Almaen ar 4 Awst 1914 (dros 100 o flynyddoedd yn ôl). Daeth y rhyfel i ben ar 11 Tachwedd 1918

Y peth pwysicaf yr oedd rhaid i Brydain ei wneud oedd sicrhau bod ganddi ddigon o ddynion i frwydro yn y rhyfel. Yn gyntaf roedd ganddi fyddin wirfoddol (1914-1915). Roedd rhaid i ddynion fod rhwng 18 a 41 oed, ond roedd llawer yn dweud celwydd am eu hoedran ac ymunodd rhai cyn ieuenged â 14 oed â'r fyddin. Rhwng 1916-1918 cyflwynwyd consgripsiwn gan fod niferoedd y gwirfoddolwyr yn cwmpo (ystyr hyn yw y cawsant eu gorfodi i ymuno).

- Ydych chi wedi gweld y poster hwn o'r blaen? Ydych chi'n gwybod pwy ydy'r dyn hwn?

Sleid 2 – Mae'n boster enwog a ddefnyddiwyd i berswadio dynion i ymuno â'r fyddin, y dyn ynddo yw'r Arglwydd Kitchener. Ef oedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel ac roedd eisoes yn arweinydd milwrol enwog o Ryfel y Boer. Mae Kitchener Road ac Ysgol Kitchener yng Nghaerdydd wedi'u henwi ar ei ôl. Roedd yn credu ei fod yn mynd i fod yn rhyfel hir a phenderfynodd drefnu byddin wirfoddol.

Nid ymunodd rhai pobl oherwydd cyflwr eu hiechyd, am eu bod yn gwneud gwaith pwysig gartref neu am resymau crefyddol a moesegol - roedd y rhain yn cael eu galw yn 'wrthwynebwyr cydwybodol'.

Bywyd ar y Rheng Flaen (Sleidiau 3 – 12)

Roedd y brwydro yn digwydd ledled y byd, ar y tir ac ar y môr, ond mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl am y brwydro yn Ffrainc a Gwlad Belg.

- Sut brofiad oedd brwydro yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn eich barn chi?
- Pa fath o ryfel oedd e?

Rhyfela yn y ffosydd – milwyr yn tyllu ffosydd neu dyllau yn y ddaear i'w hamddiffyn rhag y saethu. Roedden nhw'n byw ac yn cysgu yn y ffosydd hyn.

Sleid 3 – Ffotograff o ddynes o Forgannwg a aeth i Ffrainc fel nyrs. Gwelir hi yn sefyll mewn ffos. Roedd yn fwdlyd ac yn ddrewlyd. Roedd llawer o lygod mawr a llau ac roedd pobl yn aml yn cael heintiau ac yn dod yn sâl neu'n marw hyd yn oed. Ydych chi'n meddwl eu bod yn cael llawer o gwsg?

Sleid 4 – Roedd y milwyr yn ifanc iawn a rhai dim ond yn 18 oed. Byddai'r rhan fwyaf ohonynt erioed wedi gadael eu cartrefi neu bentrefi o'r blaen. Roedd llawer o ddynion eisiau ymuno i deithio neu gefnogi eu gwlad. Cafodd llawer o filwyr a morwyr dynnu eu lluniau cyn iddynt adael i fynd i'r rhyfel er mwyn i'w teuluoedd gael rhywbeth i gofio amdanynt. (Ffotograffau Rhestr Anrhydeddau Rhyfel Caerdydd)

- Sut gallwn ni ddysgu am fywyd ar y 'ffrynt'?

Sleid 5 – Drwy llythyrau a dyddiaduron sydd wedi goroesi. Mae sleid 5 yn dangos cofnod o ddyddiadur Mervyn Crawshay. Cafodd ei eni yn Llanilltud Fawr, roedd yn dilyn gyrfa yn y fyddin cyn y rhyfel a gwasanaethodd ym 5ed Gwarchodlu'r Dragwniaid. Roedd yn swyddog ac felly roedd yn byw mewn amodau gwell na'r rheiny yn y ffosydd, ond eto'n dal i ddweud wrthym am erchylltra'r rhyfel yng Ngwlad Belg. Mae'r dyddiadur yn dechrau ym mis Awst 1914 ac yn dod i ben ar 29 Hydref 1914. Bu farw ar 31 Hydref 1914.

Sleid 6 - Llythyrau a anfonwyd adref o'r ffrynt. Mae un llythyr yn dweud 'The glamour of war has worn off me now and if they only let me get home whole they can keep all their honours'

Sleid 7 - Cerdyn Nadolig a brodwaith arno a anfonwyd o'r ffrynt – baneri'r cynghreiriaid arno. Ydych chi'n gallu enwi'r gwledydd y mae eu baneri ar y cerdyn? (Gwlad Belg, Ffrainc, Prydain, Rwsia)

- Derbyniodd llawer o deuluoedd gartref delegramau a llythyrau yn dweud bod eu meibion wedi marw. Mae ffrâm ddu gan y llythyr hwn. Wyddoch chi pam?

Sleid 8 – Bu farw eu mab.

Sleid 9 - Ceir llawer o cardiau coffa ar gyfer anwyliaid a fu farw.

Sleid 10 - Ffotograff o Eglwys Undodaidd Pontypridd – mae'n dangos pobl a dychwelodd o'r brwydro yn y rhyfel, a'r rheiny a fu farw - cânt eu cynrychioli gan ffotograffau.

Sleidiau 11 – 12 – Roedd y Llynges hefyd yn rhan o'r brwydro. Cafodd llawer o longau lleol Caerdydd eu taro â thorpido yn y rhyfel. Mae'r cynllun o'r llong hwn o Gaerdydd yn dweud wrthym pryd y'i collwyd yn y môr; mae'r ffotograff hwn yn dangos criw SS Hopemount a ddaeth i Gaerdydd ar ôl i'w llong gael ei tharo gan dorpido o un o longau tanfor yr Almaen tua 1915.

Arwyr Lleol (Sleidiau 13—14)

- Dyfarnwyd medalau i lawer o filwyr am eu dewrder. Ydych chi'n gwybod enwau unrhyw rai o'r medalau hyn?

Sleidiau 13 – 14 – Croes Fictoria, y Groes Filwrol. Dyfarnwyd rhai i ddynion lleol ac ymwelodd rhai â'u hen ysgolion i ddweud wrth y plant am eu profiadau ar y ffrynt. Enillodd Frederick Barter o Gaerdydd Groes Fictoria ym 1915 ac aeth yn ôl i'w hen ysgol, Ysgol Fechgyn Crwys Road. Ynghyd ag 8 o filwyr eraill daliodd 102 o Almaenwyr. Hefyd torrodd wifrau a oedd yn gysylltiedig â ffrwydron a osodwyd i chwythu ffosydd Prydain i fyny. Dim ond 24 oed ydoedd pan enillodd y fedal.

Ysbytai (Sleidiau 15 – 22)

- Bu farw llawer o filwyr yn ystod y brwydro. Cafodd llawer eu hanafu hefyd a'u cludo adref i'w trin mewn ysbytai. Ydych chi'n meddwl bod digon o ysbytai ar gael i drin yr holl filwyr?

Na, roedd angen gwelyau ysbyty ychwanegol arnynt.

Sleid 15 – Cafodd llawer o adeiladau eu meddiannu i'w defnyddio fel ysbytai. Daeth llawer o ysgolion, gan gynnwys Ysgol Parc Ninian ac Ysgol Albany, yn ysbytai (cofnod llyfr log 'This school, Ninian Park, has been requisitioned by the War Office for a Temporary Military Hospital during the war'). Roedd rhaid i blant rannu adeiladau ysgolion gydag ysgolion cyfagos, roedd rhai plant yn mynd i'r ysgol yn y bore ac eraill yn y prynhawn.

Sleid 16 – Dyma ffotograff o'r ysbyty.

- Pa adeg o'r flwyddyn yw hi?

Nadolig - mae'r ysbyty wedi'i haddurno ar gyfer y Nadolig.

- Pa fath o anafiadau oedd gan y milwyr?

Sleid 17 - Roedd llawer wedi colli rhannau o'r corff a sefydlwyd gweithdy aelodau arbennig yn Ysbyty Tywysog Cymru, Caerdydd i ddarparu breichiau neu goesau artiffisial i filwyr.

- Roedd llawer o filwyr wedi cael eu gasio ac yn dioddef o effaith siel-syfrdandod. Ydych chi'n gwybod beth ydy hwn?

Ymateb i drawma rhyfel, methu cysgu, siarad na cherdded weithiau.

Sleid 18 – Dyma ffotograff o nyrsys wirfoddol yn gadael Gorsaf Caerdydd i fynd i weithio yn y ffrynt. Nid oedd merched yn cael brwydro yn y rhyfel, ond aeth llawer i'r ffrynt i weithio fel nyrsys.

Sleid 19 – Roedd nyrsys hefyd yn gweithio mewn ysbytai yng Nghaerdydd fel y gwelir yn y ffotograffau hyn.

Sleidiau 20 – 22 - Roedd Emily Connell yn gweithio fel nyrs hŷn yn y 3ydd Ysbyty Gorllewinol yn Ysgol Gerddi Howard, Caerdydd o 1915 i 1918. Roedd hi'n cadw llyfr llofnodion sydd wedi'i lofnodi gan y milwyr y rhoddodd driniaeth iddynt. Mae rhai wedi gwneud sylwadau doniol neu ysgrifennu cerddi, mae rhai wedi gwneud cartwnau neu frasluniau. Yn gyffredinol roeddent yn diolch i'r nyrsys. Mae llawer wedi nodi eu catrodau yn y rhyfel ac felly mae'n bosib y gellid olrhain rhai ohonynt drwy ddefnyddio gwefannau hanes teulu. Anafwyd llawer o filwyr o Brydain, Awstralia, Canada a Seland Newydd yn Ffrainc a Gwlad Belg.

Merched wrth eu Gwaith (Sleidiau 23 – 24)

- Beth ddigwyddodd pan aeth cymaint o ddynion i ffwrdd i frwydro? Beth ddigwyddodd i'r swyddi a adawyd ganddynt?

Cyn y rhyfel roedd y rhan fwyaf o ferched yn aros gartref ac nid oedd ganddynt swyddi, ond yn ystod y rhyfel dechreuodd y merched wneud y swyddi yr arferai'r dynion eu gwneud. Roedd llawer ohonynt yn mwynhau'r cyfrifoldeb a gwnaeth rhai ohonynt gadw eu swyddi ar ôl y rhyfel.

Sleid 23 – Yn ystod y rhyfel roedd rhaid i ferched wneud gwaith pwysig, ar y tir ac yn y ffatrioedd arfau rhyfel. Roeddent hefyd yn gwneud swyddi nad oeddent erioed wedi'u gwneud o'r blaen megis casglu tocynnau ar fysus. Dyma ffotograffau o ferched o'r Rhath a oedd yn gweithio yn ystod y rhyfel, fel geneth ffarm ac yn yr RAF.

Sleid 24 – Dyma ffotograff o Dorothy Curtis yn ei gwisg waith. Roedd hi'n dod o Gaerdydd, ond yn gweithio yn y ffatri arfau rhyfel yn Birmingham. Mae hi wedi arwyddo'r ffotograff 'trowsus'. Pam wnaeth hi hyn tybed?

Yn fwyaf tebygol dyma'r tro cyntaf iddi wisgo trowsus gan mai dim ond sgertiau yr arferai merched eu gwisgo cyn y rhyfel. Byddai hyn wedi cael ei ystyried yn eithaf beiddgar.

Er bod y rhyfel yn erchyll, roedd yn galluogi merched i gael llawer o ryddid a chyfleoedd a dechreuodd merched gael mwy o hawliau cydradd gyda rhai ohonynt yn cael yr hawl i bleidleisio am y tro cyntaf ar ôl y rhyfel.

Bywyd yn yr Ysgol ac yn y Cartref (Sleidiau 25 – 35)

- Mewn ysgolion i fechgyn roeddent yn cael eu haddysgu gan athrawon gwrywaidd. Beth ddigwyddodd i'r athrawon gwrywaidd yn ystod y rhyfel?

Sleid 25 – Ymunodd llawer ohonynt yn y fyddin. Penodwyd athrawesau yn eu lle (gweler y cofnod yn y llyfr log). Roedd merched yn cael addysgu bechgyn (ar wahân i fabanod) am y tro cyntaf.

Yr adeg honno os oedd athrawes yn priodi roedd rhaid iddi adael ei swydd ond yn ystod y rhyfel roedd yn gallu parhau i addysgu hyd yn oed ar ôl iddi briodi.

Sleid 26 – Cafodd llawer o athrawon amser i ffwrdd o'r ysgol i ymweld â pherthnasau oedd wedi'u hanafu. Cafodd yr athrawes hon amser i ffwrdd i ymweld â'i gŵr a oedd yn filwr wedi'i anafu mewn ysbyty yn Birmingham.

Sleid 27 - Roedd plant yn helpu i godi arian ar gyfer yr ymgyrch rhyfel. Yn Ysgol Parc Ninian aethpwyd â'r plant i Ysbyty Parc Ninian i ddiddanu'r milwyr. Roeddent yn aml yn mynd ag anrhegion fel sigarêts neu arian gyda nhw. Y tro hwn aethon nhw â losin.

Sleid 28 – Roedd pobl yn cael eu hannog i wau sanau ac eitemau i gysuro'r milwyr.

- Daeth rhai plant o Lundain i Ysgol Parc Ninian. Pam hynny?

Sleid 29 – Oherwydd y cyrchoedd awyr (mae'r cofnod yn y llyfr log yn nodi 'Within the last 3 weeks a number of Jewish children have been admitted; they have left London owing to the frequent air raids'). Bu rhai cyrchodd zeppelin dros Brydain. Llong awyr fawr ydy zeppelin.

Sleidiau 30 – 31 – Bu plant ysgol hefyd yn codi arian i ffoaduriaid o Wlad Belg (cofnod llyfr log). Ymosodwyd ar Wlad Belg gan yr Almaen ym mis Awst 1914 a daeth miloedd o Felgiaid i Brydain i fyw (tua 250,000).

- Cafodd llongau a oedd yn cludo bwyd eu taro gan dorpidos o longau tanfor Almaenaidd ac felly roedd hyn yn rhoi pwysau ar gyflenwadau bwyd. Cyflwynwyd dogni ym 1918. Ydych chi'n gwybod beth ydy hwn?

Sleidiau 32 – 33 – Roedd dogni yn golygu bod pawb yn cael cyfran deg o fwyd. Mae cofnodion llyfr log yn dweud wrthym fod plant yn colli diwrnodau yn yr ysgol oherwydd eu bod yn cael eu hanfon i giwio am fwydydd fel menyn. Roedd plant yn cael eu haddysgu yn yr ysgol i fwyta llai ac arbed bara (cofnod llyfr log). Cyflwynwyd cinio ysgol gan fod mamau yn treulio cymaint o amser yn ciwio am fwyd fel nad oedd amser ganddynt i baratoi cinio.

Sleidiau 34 – 35 – Roedd rhaid i bawb fod yn wyladwrus. Roedd perygl o ymosodiad o amgylch yr arfordir felly roedd rhaid i bobl wyllo'r arfordir (mae'r llythyr ar sleid 24 yn dweud wrthym fod dau o bobl yn goruchwyllo ar y traeth yn yr As Fawr, gyda gynau). Mae sleid 35 yn dangos bod Geids Llanisien wedi bod ar wyliau yn Bournemouth ac wedi helpu i ddal ysbïwr o'r Almaen!

Diwedd y Rhyfel (Sleidiau 36 – 42)

- Pryd ddaeth y rhyfel i ben?

11 Tachwedd 1918

- Beth yw'r enw arbennig ar gyfer diwedd y rhyfel?

Sleid 36 – Cadoediad. Ar Ddiwrnod y Cadoediad, rhoddwyd gwybod i bobl yng Nghaerdydd am ddiwedd y rhyfel drwy ganu clychau eglwys a seinio cynn ffatrioedd. Unwaith y daeth y newyddion trwyddo, rhoddwyd diwrnod i ffwrdd o'r ysgol i'r plant (cofnod llyfr log).

- Sut ydym ni'n cofio'r rhai fu farw yn y rhyfel?

Sleid 37 - Dau funud o dawelwch ar yr 11eg awr o'r 11eg diwrnod o'r 11eg mis. Defnyddiwyd y dull hwn o gofio mor gynnar yn ôl â 1919. Mae'r cofnod yn y llyfr log yn dweud 'At 11 o'clock all bowed their heads in silent prayer for 2 minutes'.

- Beth yw'r symbol sydd gennym ar gyfer Dydd y Coffa?

Sleid 38 – Y Pabi. Defnyddiwyd y symbol hwn am y tro cyntaf ym 1920 a'i ysbrydoli gan y gerdd 'In Flanders Field'.

Sleid 39 – Mae dulliau coffa mwy parhaol o'r enw cofebau rhyfel i'w cael hefyd. Dyma ffotograff o gofeb rhyfel Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gorchuddio â thorchau pabi. Weithiau mae cofebion rhyfel yn gerffdelw, neu gall fod yn blac mewn eglwys neu neuadd goffa. Bob blwyddyn fe welwch y rhain wedi'u gorchuddio â thorchau pabi i gofio am bobl leol fu farw. Mae enwau'r bobl hynny wedi'u nodi arnynt.

Sleidiau 40 – 41 – Bu farw llawer o bobl rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 1918 o'r fflw Sbaenaidd. Lladdodd y salwch hwn lawer o bobl o amgylch y byd. Mae cofnodion llyfr log Parc Ninian yn dangos athrawon a disgyblion i ffwrdd o'r ysgol gyda'r fflw. Caewyd yr ysgol i atal yr haint rhag lledaenu. Bu farw un ferch fach. Roedd yn gyfnod gwael gan fod pobl yn dal i ddod atynt eu hunain ar ôl caledi'r rhyfel. Cafodd un rhan o dair o boblogaeth y byd ei heintio a bu i filiynau o bobl farw, mwy nag a fu farw yn y rhyfel.

Sleid 42 – Cartrefi i Arwyr. Roedd llawer o'r bobl a ymunodd â'r rhyfel yn wael eu hiechyd, ac roeddent yn byw mewn tai gwael. Ar ôl y rhyfel addawodd y llywodraeth y byddai'n darparu tai 'addas i arwyr' ar eu cyfer. Arweiniodd hyn at sefydlu Deddf Tai 1919. Cafodd slymiau yng nghanol Caerdydd eu dymchwel a chafodd y tai cyngor cyntaf eu hadeiladu yn Nhrelái yn y 1920au (Mae Sleid 42 yn dangos y cynlluniau adeiladu ar gyfer ystâd Trelái).

Syniadau sesiwn drafod:

- Beth ddysgoch chi a oedd yn ddiddorol iawn?
- Beth ydych chi'n meddwl yw'r tri gair pwysicaf yn y gweithgaredd hwn?
- Beth hoffech chi ddysgu mwy amdano?

Gweithgareddau posibl yn seiliedig ar y gweithdy hwn:

- Ysgrifennwch lythyr yn dychmygu eich bod yn brwydro neu'n gweithio fel nyrs ar y rheng flaen.

Beth fyddech chi'n ei ddweud wrthynt mewn llythyr gartref? A fyddech chi'n onest a dweud sut oedd yr amodau yno neu a fyddech chi'n osgoi dweud y gwir fel na fyddai eich teulu'n poeni cymaint?

- Ymchwiliwch i'ch cofeb rhyfel leol

Ble mae hi? Sut gofeb ydy hi? Sawl enw sydd arni?

- Dyluniwch eich cofeb rhyfel eich hun

Sut fyddech chi'n coffau'r holl bobl fu farw? Cerfddelw, parc neu adeilad efallai?

Chwilio ar-lein am filwyr o Gaerdydd / De Cymru

Un ffordd y gallwn goffau'r milwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf yw drwy olrhain ein teulu a fu'n brwydro yn y rhyfel drwy ddefnyddio gwefannau megis Find My Past ac Ancestry - holwch eich rhieni a'ch mam-gu a thad-cu a ydynt yn gwybod am unrhyw aelodau o'r teulu a fu'n gwasanaethu yn y rhyfel.

Chwilio am gofnod gwasanaeth Fred Keenor ar Ancestry

Roedd Fred Keenor yn chwarae i Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd ac mae cerfddelw ohono i'w weld y tu allan i'r stadiwm.

- Pa gatrawd oedd o ynddi?

Bataliwn Pêl-droed, Catrawd Middlesex

- Beth oedd ei waith cyn iddo ymuno â'r fyddin?

Pêl-droediwr proffesiynol

- Beth ddigwyddodd iddo yn y rhyfel?

Cafodd ei saethu ac aethpwyd ag ef i ysbyty milwrol yn Nulyn.

- Beth ddigwyddodd iddo pan geisiodd ymuno â'r Ail Ryfel Byd?

Cafodd ei wrthod gan y fyddin oherwydd bod clefyd y siwgr ganddo

Chwilio am Fred Keenor yng nghyfrifiad 1911

- Ble oedd e'n byw?

16 Theodora Street, Y Rhath, Caerdydd

- Beth oedd ei oedran?

17

- Sawl brawd a chwaer oedd ganddo?

8

- Beth oedd ei swydd ym 1911?

Dyn Ilaeth

Chwilio am Mervyn Crawshay ar wefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad

Mae beddau'r milwyr yn cael eu trin yn ofalus. Gallwch ddefnyddio gwefan Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad i ddod o hyd i feddau pobl.

- Pryd fu farw Mervyn Crawshay?

31 Hydref 1914

- Ble mae e wedi'i gladdu?

Mynwent Cement House, Langemarck

- Pryd cafodd ei gladdu yno?

1970

- Pwy sydd wedi'i gladdu gydag e?

Milwr dienw

- Pryd cafodd ei gorff ei enwi?

1992

- Pryd y codwyd ei garreg fedd newydd?

1993

- Ble arall mae Mervyn Crawshay wedi'i goffau?

Ar Gât Menin

- Pam hynny?

Mae milwyr na ddaethpwyd o hyd i'w cyrff yn cael eu coffau ar Gât Menin. Oherwydd na ddaethpwyd o hyd i gorff Mervyn Crawshay tan 1970 mae ei enw wedi'i gofnodi ar y gât hefyd.